ROSE McMAHON a CERIDWEN LLWYD-MORGAN a'r cof am

# Ladis Llangollen a Phlas Newydd

UN O'R TREFI hynafol o fewn cyrraedd i faes y Brifwyl eleni yw Llangollen, sydd wedi hen ennil ei phlwyf fel canolfan i dwristiaid. Bu'n croesawu ymwelwyr ers yr Oesoedd Canol, pryd y byddai pererinion yn aros yma ar eu ffordd i Abaty Glyn y Groes gerllaw. Ond erbyn diwedd y 18fed ganrif daeth Llangollen yn enwog drwy Brydain a thu hwnt fel cartref 'Ladis Llangollen', sef y Fonesig Eleanor Butler a Miss Sarah Ponsonby.

O deuluoedd cefnog Eingl-Wyddelig yr hannai'r ddwy, a bu cyfeillgarwch agos rhyngddynt am nifer o flynyddoedd cyn iddynt benderfynu ymadael â'u teuluoedd er mwyn sefydlu cartref a bywyd newydd ynghyd.

Methiant fu eu hymgais gyntaf i ddianc. Cawsant eu dal a'u llusgo adref yn ddi-seremoni gan eu perthnasau, a oedd yn ffyrnig yn erbyn y cynllun. Ond yn y pen-draw ciliodd gwrthwynebiad y ddau deulu wrth iddynt sylweddoli mor ofer oedd rhwystrau yn erbyn penderfyniad ystyfnig y ddwy ferch i wireddu eu breuddwyd anghonfensiynol.

O'r diwedd, wedi derbyn caniatâd i ddilyn eu trywydd eu hunain, gadawodd y ddwy ffrind yr Iwerddon yn 1778, a glanio yng Nghymru.

Yn ystod mis Mai y flwyddyn honno, wrth deithio o gwmpas y wlad yn chwilio am gartref addas, cyrhaeddasant Langollen, a barnu mai hwn oedd y lle tecaf yn y byd: 'the most beatifullest country in the world'.

Wedi llwyddo i sicrhau prydles ar fwthyn o'r enw Pen-y-maes, aethant yno i fyw ym Mai 1780, gan newid enw'r tŷ i Blas Newydd. Yno y bu eu cartref am yn agos i hanner can mlynedd, ac yn Llangollen hefyd y'i claddwyd ill dwy.

* * * *

ER MAI bywyd tawel, 'a life of sweet and delicious retirement' oedd eu nod, ni chawsant lawer o lonydd ond digon o gymdeithasu. Teithiai llawer o bobl drwy Langollen gan fod y dref ar y lôn bost o Lundain i Iwerddon, ac yr oedd yn lle cyfleus i aros.

Yn y cyfnod hwn hefyd y daeth yn ffasiynol i ymwelwyr o Loegr ddod ar eu gwyliau i Ogledd Cymru, wedi eu denu gan harddwch y mynyddoedd a'r cefn gwlad. Lledodd hanes rhamantus y ddwy ffrind ac fel canlyniad deuai llawer rhagor i Langollen gan obeithio cael cip arnynt neu hyd yn oed eu cyfarfod.

Rhaid cofio hefyd bod cysylltiad rhwng y Ladis a diddordeb pobl ffasiynol yr oes mewn pensaerniaeth gothig. Rhwng 1784 a 1814 gweddnewidwyd Plas Newydd gan y Ladis.

Ychwanegwyd i'r bwthyn gwreiddiol, cymharol ddi-nod, y ffenestri oriel a welir hyd heddiw, nifer ohonynt yn cynnwys darnau o wydr lliw hynafol. Y tu mewn i'r tŷ, gorchuddiwyd y waliau gan baneli derw wedi eu cerfio.



*PLAS NEWYDD*

Rhoddion gan gyfeillion ac ymwelwyr oedd y rhain gan fwyaf: ni fentrai neb ymweld â Phlas Newydd am yr ail dro, meddid, heb ddod â darn o dderw cerfiedig i'w gyfrannu, er mwyn sicrhau croeso gan y Ladis.

Ar wahân i addurno'r tŷ, arferent dreulio eu dyddiau'n ysgrifennu, darllen, tynnu brasluniau a brodio. Ond fel y tystia'r manylion yn eu llythyron a'u dyddiaduron, yr oedd garddio hefyd yn un o'u prif ddiddordebau.

Heddiw, ysywaeth, nid oes ar ôl ond ychydig o'r gerddi helaeth a blannwyd ac a gynlluniwyd ganddynt. Ond o 'ddeildŷ' Lady Eleanor, er enghraifft, gallwch edrych i lawr o hyd ar y glyn lle rhed nant Cyflymen, a chael cip ar ambell i bont garreg a godwyd ganddynt. Yma mae modd mwynhau yr heddwch a'r llonyddwch a fu mor bwysig i'r Ladis.

* * * *

AR ÔL i'r ddwy farw, cynhaliwyd arwerthiant mawr, yn 1832, i werthu cynnwys y tŷ, ac fel canlyniad ychydig iawn o'u heiddo sydd wedi aros ym Mhlas Newydd dros y blynyddoedd. Ond yn ddiweddar penderfynwyd ymdrechu i ailddodrefnu rhai o'r ystafelloedd mewn dull cydnaws â chyfnod y Ladis, yn bennaf trwy fenthyca dodrefn addas gan Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

Ym mis Awst 1990 penododd Cyngor Dosbarth Glyndŵr am y tro cyntaf guradur llawn amser i ofalu am Blas Newydd, ac yn sgil y penodiad paratowyd Cynllun Datblygu ar gyfer arddangos a dehongli hanes y tŷ fel cartref y Ladis.

Nod pwysig yw ceisio dod o hyd i bob math o eitemau a fu yn eiddo i'r Ladis ac a arferai gael eu cadw ym Mhlas Newydd. Gan fod catalog arwerthiant 1832 yn fanwl iawn ac yn rhestru cynnwys pob ystafell, mae cyfoeth o fanylion ar glawr am gynnwys y tŷ ar ddiwedd eu hoes.

Byddai'r curadur yn falch iawn i glywed gan ddarllenwyr *Y Casglwr* am unrhyw eitemau a fu'n gysylltiedig â Ladis Llangollen a Phlas Newydd.

Yn y Cynllun Datblygu pwysleisir hefyd bod rhaid creu naws arbennig yn yr ystafelloedd er mwyn cyfleu personoliaethau'r ddwy wraig hynod a adawodd gymaint o'u hôl ar y tŷ. Gobeithia'r Cyngor ddarparu tapiau ar beiriannau 'walkman' i dywys ymwelwyr o gwmpas y tŷ.

Bydd y tapiau ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac yn cynnwys dyfyniadau o ddyddiaduron a llythyrau'r Ladis.

* * * *

GADAWODD Lady Eleanor Butler a Sarah Ponsonby archif helaeth o bapurau, sydd yn cynnwys llyfrau cownt a llyfrau nodiadau yn ogystal â gohebiaeth a dyddiaduron. Mae rhai o lythyrau Sarah Ponsonby wedi eu cadw ym Mhlas Newydd, ond yn Adran Llawysgrifau y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth, y mae'r archif mwyaf sylweddol.

Yn 1990 prynodd y Llyfrgell yr 'Hamwood Papers', sef y papurau a gadwyd gan deulu Sarah Ponsonby yn Iwerddon ar ôl iddi farw, a'r gobaith yw cyhoeddi rhai ohonynt yn y man. Y mae Curadur Plas Newydd ac Adran Llawysgrifau'r Llyfrgell eisoes yn cydweithio i rannu a dehongli'r wybodaeth werthfawr sydd yng nghasgliadau'r ddau sefydliad.

Bydd y manylion byw am fywyd beunyddiol y Ladis a geir yn yr archifau hyn yn amhrisiadwy wrth i'r cynllun i adfer y tŷ i'w hen ogoniant fynd rhagddo.

Wrth edrych yn ôl dros weithgaredd y flwyddyn gallwn gasglu y bydd dyfodol ffyniannus i Blas Newydd.

Mae'r tŷ a'i safle'n llawn hud a lledrith, a'r cysylltiad â hanes rhyfeddol Eleanor Butler a Sarah Ponsonby yn ychwanegu at y swyn. Gydag ymroddiad Cyngor Dosbarth Glyndwr, mewn cyd-weithrediad â'r Llyfrgell Genedlaethol, gall Plas Newydd ddod yn ganolfan bwysig ac unigryw o safbwynt hanes Llangollen a Chymru.

## YMYL Y DDALEN

### Morgan Rhys

Y MAE'N bur annhebyg, bellach, y llwyddaf i ychwanegu dim at y pum enghraifft sydd gennyf o'r llyfrynnau hynny a gyhoeddodd Morgan Rhys (1716–79) yn ystod ei oes, neu, a bod yn fanwl, yn ystod traean olaf ei oes; rhwng 1755 and 1774 cyhoeddodd dri llyfryn ar ddeg.

Ei gyhoeddiad cyntaf oedd llyfryn deuddeg tudalen *Golwg o ben Nebo, ar wlâd yr addewid; sef ychydig hymnau duwiol* . . . Yn 1764 ac yn 1775 caed ail a thrydydd argraffiad o'r llyfryn hwn gydag ychwanegiadau helaeth, ac y mae gennyf gopïau o'r naill a'r llall ohonynt.

Dau o gyn-berchnogion fy nghopi o'r trydydd argraffiad oedd William Thomas ac Owen Williams. Gyda llaw, y trydydd argraffiad o *Golwg o ben Nebo* oedd y llyfryn olaf a gyhoeddodd Morgan Rhys.

Heblaw cyhoeddi casgliadau o emynau, cyhoeddodd bedair marwnad — yn 1761, yn 1764, yn 1770 ac yn 1774. Y mae copïau o farwnadau 1764 a 1774 gennyf. Ar derfyn y ddwy mynnodd yr awdur ychwanegu ychydig o emynau newydd a gyfansoddodd.

Ceir y pennill adnabyddus: 'Mae'r *Jubil* dragwyddol yn awr wrth y drws . . .' yn un o'r emynau a ychwanegwyd at farwnad 1764. Diau fod copïau o'r marwnadau yn brin.

Un arall o gyhoeddiadau Morgan Rhys sydd ar fy silffoedd yw *Y Frwydr Ysprydol; mewn casgliad o hymnau newydd* . . . (?1774), sy'n cynnwys hefyd emynau o waith Thomas Dafydd. Bu un neu ragor o berchnogion anhysbys fy nghopi i yn ei fodio'n helaeth.

Emyn rhif XII yn y csgliad hwn yw saith pennill sy'n dechrau 'Eheded iachawdwr-iaeth . . .' gan Forgan Rhys. Parheir i ganu pedwar o'r penillion hyn. D.W.W.